

At: Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu

Dyddiad: 28 Tachwedd 2023

Rhif Union: 01824 712568

ebost: [democrataidd@sirddinbych.gov.uk](mailto:democrataidd@sirddinbych.gov.uk)

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR TRWYDDEDU, DYDD MERCHER, 6 RHAGFYR 2023** am **9.30 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN A THRWY GYNHADLEDD FIDEO**.

Yn gywir iawn

G Williams  
Swyddog Monitro

## **AGENDA**

### **RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

#### **1 YMDDIHEURIADAU**

#### **2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu sy'n rhagfarnu ag unrhyw fusnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

#### **3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

#### **4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 9 - 16)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 13 Medi 2023 (copi ynghlwm).

**5 NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I DABL FFOEDD A PHRSIAU CERBYDAU HACNI** (Tudalennau 17 - 30)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad (copi ynghlwm) i gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am adolygiad tabl ffioedd a phrisiau cerbydau hacni (tacsis) a chyflwyno nifer o opsiynau i'w hystyried.

**6 I AMLINELLU GOFYNION TRWYDDED GORFODOL AR GYFER TRINIAETHAU ARBENNIG** (Tudalennau 31 - 44)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad (copi ynghlwm) yn amlinellu goblygiadau y gofyniad newydd y Cynllun Trwyddedu Gorfodol ar gyfer Triniaethau Arbennig.

**7 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR TRWYDDEDU AR GYFER 2024** (Tudalennau 45 - 48)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad (copi ynghlwm), ar flaenoriaethau'r Adain Drwyddedu ynghyd â'r rhaglen gwaith i'r dyfodol ddiwygiedig.

**RHAN 2 – EITEMAU CYFRINACHOL**

Argymhellir yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod tra bydd yr eitemau busnes canlynol yn cael eu hystyried oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig (fel y diffinnir ym Mharagraff 12 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf) yn cael ei datgelu.

**8 CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - RHIF YMGEISYDD 572108** (Tudalennau 49 - 68)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio (copi ynghlwm) yn gofyn i aelodau benderfynu ar gais am drwydded cerbyd hacni a cherbyd hurio preifat gan Rif Ymgeisydd 572108.

**9 ADOLYGIAD O DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - GYRRWR RHIF 550166** (Tudalennau 69 - 82)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio (copi ynghlwm) yn gofyn i aelodau adolygu trwydded cerbyd hacni a cherbyd hurio preifat mewn perthynas â rhif Gyrrwr 550166.

## **AELODAETH**

### **Y Cynghorwyr**

Bobby Feeley (Cadeirydd)

Hugh Carson Irving (Is-Gadeirydd)

Joan Butterfield

Delyth Jones

Ellie Chard

Paul Keddie

Gwyneth Ellis

Win Mullen-James

Alan James

Andrea Tomlin

Brian Jones

### **COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth

Y Wasg a'r Llyfrgelloedd

Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**PWYLLGOR TRWYDDEDU  
GWEITHDREFN ER MWYN PENDERFYNU AR GEISIADAU AM  
DRWYDDEDAU GYRWYR CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO  
PREIFAT AC ADOLYGU GYRWYR TRWYDDEDIG PRESENNOL**

CAM	DISGRIFIAD
1.	Dylai'r Cadeirydd groesawu a chyflwyno'r ymgeisydd/deilydd y drwydded i bawb sy'n bresennol.
2.	Dylai'r Cyfreithiwr ofyn i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded i gadarnhau ei fod/bod wedi derbyn yr adroddiad a gweithdrefnau'r Pwyllgor. Os yw'r ymgeisydd yn ateb yn gadarnhaol, dylid symud ymlaen at gam 4.
3.	Pe digwydd i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded ddweud nad yw wedi derbyn yr adroddiad, yna dylid cyfarch y mater yn awr. Gallai'r Aelodau fod eisiau ystyried gohirio'r mater, am gyfnod byr, er mwyn i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded gael cyfle i ddarllen yr adroddiad.
4.	Dylai Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (neu gynrychiolydd ar ei ran) gyflwyno'r cais/adolygiad yn fras
5.	Gofynnir i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded gyflwyno ei achos/hachos  Gall yr ymgeisydd/deilydd y drwydded alw unrhyw dyst y mae'n eu dewis i gefnogi ei gais/chais, a dylid rhoi rhybudd ymlaen llaw i'r Swyddogion Trwyddedu ynglŷn â hynny.
6.	Gall Aelodau'r Pwyllgor holi'r ymgeisydd/deilydd y drwydded ac /neu ei dystion ei thystion.
7.	Gwahoddir swyddogion technegol i gyflwyno unrhyw ganfyddiadau (Gorfodaeth Trwyddedu/Cymunedol, Tîm Cyswllt Cyntaf (y Gwasanaethau Cymdeithasol), Cludiant Ysgolion.)
8.	Gall Aelodau'r Pwyllgor ac yna'r ymgeisydd/deilydd y drwydded ofyn cwestiynau i'r swyddogion technegol
9.	Gwahoddir yr ymgeisydd/deilydd y drwydded i gyflwyno sylwadau i gloi, os ydynt yn dymuno gwneud hynny.
10.	Gofynnir i'r canlynol adael y cyfarfod tra trafodir y cais/yr adolygiad gan yr Aelodau - yr ymgeisydd/deilydd y drwydded, pob trydydd parti, Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd, swyddogion technegol.  DS yr unig rai a ddylai fod yn weddill yw – Aelodau'r Pwyllgor, cyfieithydd, cynghorydd cyfreithiol y pwyllgor a'r sawl sy'n cymryd y cofnodion.

11.	Dylai aelodau'r pwyllgor roi ystyriaeth i'r cais/adolygiad gan roi cyfrif am y dystiolaeth a glywyd.
12.	Pe bai'n angenrheidiol i Aelodau'r Pwyllgor alw unrhyw barti yn eu holau i'w holi neu i ofyn iddynt ddarparu rhagor o wybodaeth neu egluro rhywbeth, gwahoddir pawb a fydd wedi ymneilltuo o'r cyfarfod yn eu holau. Wedi i'r cwestiwn (cwestiynau) gael eu hateb gofynnir i bob trydydd parti ymneilltuo unwaith eto er mwyn i'r Aelodau gael ystyried y dystiolaeth i gyd.
13.	Pan fo'r Aelodau wedi dod i benderfyniad, gelwir yr holl bartïon yn eu holau a chaiff yr ymgeisydd/deilydd y drwydded wybod beth yw penderfyniad yr Aelodau gan y Cadeirydd.
14.	Bydd y Cadeirydd yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded o'r penderfyniad y daethpwyd iddo. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw amodau neu gosbau sydd wedi eu gosod. Os oes angen, dylai Cyfreithiwr y Cyngor gyflwyno eglurhad pellach ynglŷn â'r penderfyniad a'i oblygiadau i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded.
15.	Os mai'r penderfyniad yw gwrthod neu os oes penderfyniad i atal neu ddirymu, dylai Cyfreithiwr y Cyngor roi gwybod i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded am yr hawl i apelio i Lys Ynadon (bydd y llythyr penderfyniad hefyd yn cynnwys y manylion hyn).
16.	<p>Ar gyfer gyrrwr sydd eisoes wedi ei drwyddedu (a bod y drwydded wedi ei rhoi gan Sir Ddinbych), a bod penderfyniad y Pwyllgor yn ymwneud ag atal neu ddirymu'r drwydded bresennol, gall yr Aelodau wneud hynny naill ai o dan:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Adran 61 (2A) Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.</li> <li>2. Adran 61 (2B) Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.</li> </ol> <p>Daw'r penderfyniad hwn i rym YN SYTH ac ni ellir ei ddefnyddio ond pan fo'r sail dros atal/dirymu yn fater sy'n ymwneud â diogelwch y cyhoedd.</p> <p>Bydd y Cyfreithiwr yn esbonio goblygiadau'r penderfyniad wrth ddeilydd y drwydded.</p>
17.	Caiff yr ymgeisydd/deilydd y drwydded ei hysbysu o'r penderfyniad yn ysgrifenedig cyn gynted ag y bo'r ymarferol bosibl.
18.	Caiff yr ymgeisydd/deilydd y drwydded ei wahodd/gwahodd i drafod unrhyw fater y mae'n ansicr yn ei gylch gyda Swyddogion Trwyddedu yn dilyn y Pwyllgor.

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,  
(enw)

\*Aelod /Aelod cyfetholedig o  
(\*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant **\*personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-  
(\*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(Gweler y nodyn isod)\*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



## PWYLLGOR TRWYDDEDU

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun a thrwy gynhadledd fideo ddydd Mercher, 13 Medi 2023 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Joan Butterfield, Ellie Chard, Gwyneth Ellis, Bobby Feeley (Cadeirydd), Hugh Irving (Is-gadeirydd), Alan James, Brian Jones, Paul Keddie, Win Mullen-James ac Andrea Tomlin.

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyfreithiwr (LB), Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd, Adfywio a Datblygu Economaidd (GR), Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd (IM), Uwch Swyddog Trwyddedu (NJ), Swyddog Trwyddedu (ES), Swyddog Gorfodi - Trwyddedu (KB), a Gweinyddwyr Pwyllgorau (KEJ a SLW [Gweddarlledwr])

## PWYNTIAU I'W NODI

- yn anffodus ni fu'n bosibl i ddarparu cyfieithu ar y pryd ar gyfer y cyfarfod gan nad oedd y cyfieithydd a drefnwyd ar gael bellach a bu ymdrechion i ddod o hyd i gyfieithydd arall i ddod i'r cyfarfod yn aflwyddiannus.
- Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Ellie Chard (a oedd wedi disodli'r Cynghorydd Michelle Blakeley-Walker) i'w chyfarfod Pwyllgor Trwyddedu cyntaf. Nid oedd y Cynghorydd Chard wedi derbyn yr hyfforddiant trwyddedu gofynnol eto ac roedd felly'n mynychu'r cyfarfod fel arsylwr yn unig ar yr achlysur hwn.

### 1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorydd Delyth Jones  
Byddai'r Cynghorydd Win Mullen-James yn cyrraedd y cyfarfod yn hwyr.

### 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Brian Jones gysylltiad personol ag eitem 5 yn y rhaglen - Newidiadau Arfaethedig i Dabl Ffioedd Cerbydau Hacni, gan ei fod fel cyn Aelod Cabinet wedi bod yn rhan o drafodaethau gyda chyfran fawr o'r fasnach tacsis yn ymwneud â Chynllun Peilot Gwefru Cerbydau Trydan.

### 3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw faterion bryd.

### 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2023.

**PENDERFYNWYD** derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2023 a chadarnhau eu bod yn gywir.

## **5 NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I DABL FFIOEDD CERBYDAU HACNI**

[Ymatalodd y Cynghorydd Win Mullen-James rhag pleidleisio ar yr eitem hon gan ei bod wedi ymuno â'r cyfarfod yn hwyr ac nad oedd wedi bod yn bresennol am y drafodaeth gyfan.]

Cyflwynodd Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd (RhBGC) adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu'r ffioedd tariff cyfredol ar gyfer cerbydau hacni (taxis), gan gynnwys dewisiadau i'w hystyried ac argymhellion ar y ffordd ymlaen. Roedd y ffioedd tariff cyfredol wedi eu gosod yng Ngorffennaf 2022.

Yn dilyn cais gan yrrwr trwyddedig, roedd swyddogion wedi ymgynghori ar gynnydd arfaethedig o 10% i'r holl dariffau a ffioedd ychwanegol i ganfod safbwyntiau'r fasnach drwyddedig. Roedd yr ymateb yn cynnwys cefnogaeth gyffredinol ar gyfer cynnydd ac amrywiadau amgen niferus i'r cynnig. Roedd Adroddiad yr Ymgynghorydd Trwyddedu ar adolygiad o'r ffioedd 2022 wedi argymhell methodoleg ar gyfer cyfrif ffioedd yn y dyfodol a oedd yn ddibynnol ar ddata digonol yn cael ei ddarparu gan y fasnach drwyddedu; roedd y gwaith ymgysylltu hwnnw wedi dechrau heb unrhyw amserlen benodol ar gyfer cwblhau. Yn absenoldeb y data hwn, roedd yr Ymgynghorydd wedi argymhell defnyddio'r Mynegai Prisiau Manwerthu ar gyfer Moduro (4.8% ar Awst 2023) fel adnodd i gynyddu/gostwng ffioedd.

Fe arweiniodd y Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd Aelodau drwy'r adroddiad yn fanwl a'r dewisiadau oedd ar gael i un ai cadw'r tabl ffioedd presennol, cefnogi'r cynnig ar gyfer cynnydd o 10% mewn tariff neu gefnogi cynnydd yn unol â'r Mynegai Prisiau Manwerthu ar gyfer Moduro. Pe byddai Aelodau'n cefnogi cynnydd mewn ffioedd byddai ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynnal ar y cynnig gydag unrhyw wrthwynebiadau'n cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor i'w hystyried. Byddai unrhyw dariff terfynol yn destun Penderfyniad Dirprwyedig Aelod Arweiniol. Roedd swyddogion wedi argymhell ymgynghoriad ar gynyddu ffioedd 5% (wedi ei dalgrynnu i'r canran llawn agosaf) yn unol â'r Mynegai Prisiau Manwerthu ar gyfer Moduro fel yr argymhellwyd gan yr Ymgynghorydd.

Ystyriodd Aelodau'r adroddiad a'r dewisiadau oedd ar gael iddynt, ac roedd yna safbwyntiau cymysg ynglŷn â'r ffordd orau ymlaen. Codwyd cwestiynau gyda'r Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd yn ymwneud ag agweddau amrywiol o'r adroddiad a'r ymgynghoriad cychwynnol gyda'r fasnach, a chodwyd rhai pryderon yn ymwneud â thybjaethau nad yw'r rhai na ymatebodd yn gefnogol i adolygiad, diffyg ymateb cyffredinol o'r fasnach taxis i lywio'r broses ac amrywiadau graddfa chwyddiant pan oeddent yn cael eu defnyddio fel sail ar gyfer cynyddu ffioedd. Tra codwyd pryderon cyffredinol yn ymwneud ag amseru cynnydd mewn ffioedd yn ystod argyfwng costau byw a'r effaith ar ddefnyddwyr taxis, rhoddwyd ystyriaeth hefyd i'r effaith ar y fasnach taxis a oedd yn ymdrin â chostau cynyddol sy'n

effeithio ar y diwydiant. Teimlwyd y dylai fod yna ddull mwy strwythuredig o adolygu ffioedd yn rheolaidd.

Ymatebodd y Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd i gwestiynau a sylwadau'r Aelodau fel a ganlyn –

- nid oedd yna unrhyw derfynau amser statudol ar gyfer adolygu ffioedd a phrisiau tacsis
- yn dilyn y cais i gynyddu tariff, ystyriwyd ei bod yn briodol i fesur cefnogaeth ar gyfer cynnydd gan y fasnach dacsis
- ymgynghorwyd â 280 o yrwyr trwyddedig, roedd 56 wedi ymateb gyda 47 yn cefnogi cynnydd, ac ystyriwyd hynny'n ddigonol i fynd ymlaen gydag adolygiad
- nid oedd yna unrhyw fethodoleg y tu ôl i'r dybiaeth fod y rhai hynny a fethodd ymateb yn fodlon gyda'r tariff presennol, ac o ystyried y gyfradd ymateb isel i ymgynghoriadau'n gyffredinol ni ellid dod i gasgliad boddhaol ynglŷn â'r dybiaeth honno
- roedd swyddogion yn gweithio i ymgysylltu gyda'r fasnach dacsis fel yr argymhellwyd gan yr Ymgynghorydd gyda'r bwriad o gyfrifo cynnydd mewn prisiau yn y dyfodol ac wedi cwblhau'r gwaith hwnnw byddai adolygiadau rheolaidd yn cael eu cynnal ar sail strwythurol ac amserol
- tra y cyfeiriwyd at ymgynghoreion ac ymatebwyr fel gyrwyr trwyddedig roeddent hefyd yn cynnwys perchnogion busnesau tacsis
- pe byddai cynnydd mewn prisiau'n cael ei gefnogi byddai ymgynghoriad eang gyda'r cyhoedd a budd-ddeiliaid yn dilyn
- fe dderbyniwyd fod y cynnydd a argymhellwyd o 5% yn unol â'r Mynegai Prisiau Manwerthu ar gyfer Moduro, fel yr oedd ym mis Awst 2023, yn newid yn fisol ond i ddibenion adolygiad roedd angen ffigwr y cytunwyd arno er mwyn symud ymlaen
- nodwyd er bod chwyddiant wedi gostwng yn ddiweddar roedd yn golygu fod costau wedi codi'n fwy sylweddol nac yn flaenorol ac roeddent yn parhau i gynyddu ond ar raddfa arafach
- mae tariffau yn gosod y ffi uchaf posibl a ganiateir, a gellid codi ffi is
- roedd yr Ymgynghorydd wedi cwblhau ei adroddiad ac nid oedd yna unrhyw gostau eraill yn ymwneud ag ymgynghoriaeth yn cael eu hysgwyddo gan yr awdurdod mewn perthynas â'r gwaith hwnnw.

Roedd y Cynghorydd Joan Butterfield yn anghyfforddus gyda chynnydd mewn tariff ar yr adeg hon, ond roedd yn cydnabod y cynnydd mewn costau yr oedd y fasnach dacsis yn ei wynebu. Roedd yn teimlo y byddai ymgynghoriad ar gynnydd o 5% yn briodol i geisio cael safbwyntiau'r cyhoedd yn ehangach i lywio unrhyw benderfyniad dilynol. O ganlyniad cynigodd y Cynghorydd Butterfield, ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Alan James, argymhellion y swyddog fel y nodir ym mharagraffau 6.1, 6.3 a 6.4 yn yr adroddiad, i ymgynghori ar gynnydd o 5%, parhau gyda'r hysbysiad statudol o ran hynny, ac adrodd unrhyw wrthwynebiadau yn ôl i'r Pwyllgor.

Ni allai'r Cynghorydd Brian Jones gefnogi cynnydd mewn tariff ar yr adeg hon o ystyried yr argyfwng costau byw presennol ac nid oedd yn credu fod y nifer o ymatebion i'r ymgynghoriad mewn cefnogaeth i gynnydd yn ddigonol i barhau gyda

hynny. Cynigodd y Cynghorydd Jones ddiwygiad, ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Andrea Tomlin, i gadw tabl presennol y ffioedd. Eglurodd y Cyfreithiwr y broses yn ymwneud â diwygiadau i gynigion a galwodd y Cadeirydd am bleidlais ar y diwygiad.

Cododd y Cynghorydd Gwyneth Ellis bwynt o drefn ar ddilysrwydd y diwygiad, roedd yn dadlau nad oedd hwn yn ddiwygiad ond yn bleidlais yn erbyn y cynnig. Ailadroddodd y Cyfreithiwr y dewisiadau oedd ar gael i'r Pwyllgor fel y nodwyd yn yr adroddiad. Os oedd y diwygiad yn methu, roedd y Pwyllgor i bob pwrpas yn cytuno i gynnydd, ond roedd yna'r dewis nad oedd wedi ei benderfynu eto o gynnyddu o 5% neu 10%.

Ar ôl cyfrif y pleidleisiau, ceisiwyd eglurhad gan y Cynghorydd Butterfield p'un ai a oedd wedi pleidleisio a sut roedd wedi pleidleisio, nid oedd wedi ei nodi. Cadarnhaodd y Cynghorydd Butterfield ei phleidlais a chanlyniad hynny oedd pleidlais gyfartal. Defnyddiodd y Cadeirydd ei phleidlais fwrw i bleidleisio yn erbyn y diwygiad a **GOLLWYD**. Galwodd y Cadeirydd am bleidlais ar y cynnig gwreiddiol gan y Cynghorydd Joan Butterfield, a eiliwyd gan y Cynghorydd Alan James, a gafodd ei ailddatgan er budd yr Aelodau.

Wrth bleidleisio –

**PENDERFYNWYD**, drwy fwyafrif –

- (a) *bod y swyddogion yn cael cyfarwyddyd i ymgynghori ar weithredu cynnydd i'r tariff o 5% (wedi'i dalgrynnu i'r ganran lawn agosaf) yn unol â'r Mynegai Prisiau Manwerthu ar gyfer Moduro;*
- (b) *awdurdodi swyddogion i fwrw ymlaen â hysbysiad statudol sydd â dyddiad gweithredu o leiaf 28 diwrnod ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad, a*
- (c) *rhoi cyfarwyddyd i swyddogion i baratoi adroddiad ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor Trwyddedu os ceir unrhyw wrthwynebiadau i'r hysbysiad statudol.*

## **6 IS-DDEDDFAU CERBYDAU HACNI DIWYGIEDIG ARFAETHEDIG**

Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu adroddiad (a ddisbarthwyd ymlaen llaw) yn cyflwyno'r Is-ddeddfau diwygiedig yn ymwneud â rheoliad Cerbydau Hacni ar gyfer ei ystyried gan y Pwyllgor a'i gymeradwyo ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol.

Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa ynglŷn â gofynion deddfwriaethol y Cyngor ar gyfer trwyddedu a rheoleiddio cerbydau hacni a gyrwyr. Ers ad-drefnu llywodraeth leol yn 1996 mae'r cyfrifoldebau hynny wedi eu harfer drwy Amodau Trwyddedu Cerbyd Hacni a Hurio Preifat y Cyngor a thrwy Is-ddeddfau mewn perthynas â'r Rhyl a Phrestatyn yn unig. Argymhellwyd fod y Cyngor yn mabwysiadu Is-ddeddfau a oedd yn ymwneud â'r sir gyfan i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r newidiadau mewn deddfwriaeth yn gywir ac yn sicrhau dull teg, tryloyw a chyson.

Argymhellodd swyddogion fod yr Is-ddeddfau Enghreifftiol a luniwyd gan yr Adran Drafnidiaeth (Atodiad A i'r adroddiad) yn cael eu cymeradwyo ar gyfer

ymgyngoriad ffurfiol gydag unrhyw sylwadau'n cael eu cyflwyno gerbron y Cyngor i'w hystyried. Pe byddai'r Is-ddeddfau Enghreifftiol yn cael eu mabwysiadu gan y Cyngor, byddai Is-ddeddfau Y Rhyl a Phrestatyn (Atodiad B i'r adroddiad) yn cael eu diddymu.

Cytunodd Aelodau y dylid gweithredu dull cyson ar draws y sir mewn perthynas ag is-ddeddfau cerbydau hacni a nodwyd na fyddai mabwysiadu'r is-ddeddfau enghreifftiol yn achosi unrhyw newid mawr ond byddai'n moderneiddio'r ddarpariaeth bresennol a oedd yn ymwneud â Rhyl a Phrestatyn yn unig ar hyn o bryd. Cwestiynwyd perthnasedd darpariaeth 18 (a) a oedd yn ymwneud ag unrhyw eiddo a gaiff ei adael ar ôl yn cael ei drosglwyddo'n gorfforol i Orsaf Heddlu. Cadarnhaodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu fod eitemau i'w cyflwyno i Orsaf Heddlu a oedd yn amod trwyddedu gydag eiddo yn cael ei drosglwyddo i rywun mewn awdurdod a'r Heddlu oedd y rhai gorau i ymdrin â'r mater.

Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth yn yr adroddiad,

#### **PENDERFYNWYD –**

- (a) *bod Is-ddeddfau Enghreifftiol arfaethedig yr Adran Drafnidiaeth (fel y nodir yn Atodiad A yr adroddiad) yn cael eu cefnogi, a*
- (b) *rhoi awdurdod i swyddogion ddechrau ymgynghoriad ffurfiol gyda phob perchennog cerbyd hacni a gyrwyr trwyddedig.*

## **7 ADOLYGU GOFYNION MEDDYGOL GYRWYR CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT**

Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu adroddiad (a ddisbarthwyd ymlaen llaw) ar yr adolygiad o'r gofynion meddygol presennol ar gyfer gyrwyr a cheisiodd gymeradwyaeth y Pwyllgor ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol ar y cynigion ar gyfer gweithredu safonau meddygol Grŵp 2 yn lle'r safonau meddygol Grŵp 1 presennol.

Roedd manylion ynglŷn â'r arfer cyfredol ar gyfer gwiriadau meddygol Grŵp 1 a chynigion ar gyfer gwiriadau meddygol Grŵp 2, gan gynnwys amodau arfaethedig i fodloni safonau meddygol Grŵp 2 o ran addasrwydd i yrru, ffurflenni meddygol ar gyfer y ddau grŵp a'r goblygiadau o ran cost wedi eu hamlinellu yn yr adroddiad. Mae safonau meddygol Grŵp 2 yn cael eu gweithredu mewn 19 o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru (gan gynnwys pob un o'r awdurdodau cyfagos). Byddai unrhyw newid i'r polisi presennol yn gofyn am broses ymgynghori gydag unrhyw wrthwynebiadau yn cael eu cyflwyno gerbron y Pwyllgor. Pe na fyddai unrhyw sylwadau yn cael eu derbyn byddai'r safonau arfaethedig yn dod i rym ar ddyddiad y cytunir arno.

Nododd y Pwyllgor y byddai'r cynnig i symud i safonau meddygol Grŵp 2 yn golygu y byddai'r awdurdod yr un fath ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, byddai'n gwella polisi ac yn bodloni cynigion Llywodraeth Cymru ar ddiwygio trwyddedu tacsis. Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â p'un ai a fyddai'r cynnig yn atal ymgeiswyr newydd, dywedodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu y gallai brofi'n ysgogiad i rai gyrwyr gan mai dim ond un prawf meddygol oedd ei angen wrth

ymgeisio'r tro cyntaf ar gyfer y rhai hynny o dan 45 oed ac yna bob tair blynedd o 45 - 65 oed ac yna yn flynyddol wedi hynny, yn hytrach na'r polisi presennol a oedd yn gofyn am brawf meddygol bob tair blynedd ar gyfer pob gyrrwr hyd at 60 oed ac yna yn flynyddol wedi hynny. Hefyd eglurodd nad oedd yna brinder o yrwyr trwyddedig.

**PENDERFYNWYD –**

- (a) *rhoi awdurdod i swyddogion ymgynghori â gyrrwyr trwyddedig presennol a gweithredwyr a pherchnogion trwyddedig ynglŷn â gweithredu safonau meddygol Grŵp 2;*
- (b) *Ile na dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau yn dilyn y cyfnod ymgynghori, rhoi awdurdod i swyddogion weithredu gofyniad am dystysgrifau meddygol Grŵp 2 ar gyfer gyrrwyr trwyddedig fel y nodir ym mharagraff 4.5 yr adroddiad, gyda hyn yn dod i rym o 1 Rhagfyr 2023 ar gyfer ymgeiswyr newydd, a 1 Mehefin 2024 ar gyfer deiliaid trwydded sy'n adnewyddu*
- (c) *Ile codwyd gwrthwynebiadau yn ystod y cyfnod ymgynghori, fod swyddogion yn cael cyfarwyddyd i baratoi adroddiad i'w gyflwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu er mwyn ystyried y gwrthwynebiadau.*

**8 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR TRWYDDEDU AR GYFER 2023**

Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu adroddiad (a ddisbarthwyd ymlaen llaw) ar flaenoriaethau'r Adain Drwyddedu, ynghyd â rhaglen gwaith i'r dyfodol ddiwygiedig ar gyfer 2023.

Roedd blaenoriaethau'r Adain Drwyddedu yn adlewyrchu'r ddyletswydd a roddir ar yr Awdurdod mewn perthynas â'i gyfrifoldebau o ran ei swyddogaeth drwyddedu, a rheoleiddio, rheoli a gorfodi trwyddedeion yn effeithiol, yn ogystal ag ymrwymiad yr Awdurdod i greu cymunedau mwy diogel a datblygu'r economi. Gofynnwyd i Aelodau ystyried y rhaglen gwaith i'r dyfodol ddiwygiedig a nodi fod yr adolygiad a drefnwyd o'r Datganiad Polisi Cerbyd Hacni a Hurio Preifat wedi ei ohirio ymhellach tra'n aros am ganlyniad yr ymgynghoriad ar Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru: Bil Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat (Cymru).

**PENDERFYNWYD –**

- (a) *nodi cynnwys yr adroddiad, a*
- (b) *chymradwyo'r rhaglen gwaith i'r dyfodol ddiwygiedig ar gyfer 2023 fel yr amlinellir yn Atodiad A yr Adroddiad.*

**GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD** o dan Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12, 13

a 14 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.

Ar y pwynt hwn (10.45 am) cymerodd y pwyllgor egwyl fer.

## **9 CAIS AM DRWYDDED CERBYD HURIO PREIFAT**

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad (a ddsbarthwyd ymlaen llaw) ynghlŷn â'r canlynol –

- (i) cafwyd cais am Drwydded Cerbyd Hurio Preifat;
- (ii) nid yw swyddogion wedi bod mewn sefyllfa i ganiatáu'r cais gan nad yw'r cerbyd a gyflwynwyd i gael trwydded yn cydymffurfio â pholisi'r Cyngor ynghylch y cyfyngiad oedran pum mlynedd i gerbydau a drwyddedir gan gais newydd;
- (iii) amodau ychwanegol yn berthnasol i drwyddedu mathau o gerbydau arbenigol megis yr un a gyflwynwyd yn yr achos hwn ynghyd â thystiolaeth gefnogol a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd, a
- (iv) gwahoddwyd yr Ymgeisydd i fynychu'r cyfarfod i gefnogi'r cais ac i ateb cwestiynau'r Aelodau wedi hynny.

Roedd yr Ymgeisydd yn bresennol a chadarnhaodd ei fod wedi derbyn yr adroddiad a gweithdrefnau'r pwyllgor.

Darparodd y Swyddog Gorfodi (KB) grynodedeb o'r adroddiad a ffeithiau'r achos.

Cyflwynodd yr Ymgeisydd ei achos a chyfeiriodd at y ddogfennaeth gefnogol a oedd wedi ei ddsbarthu ymlaen llaw gyda'r adroddiad. Roedd yn weithredwr cerbydau arbenigol sefydledig gydag enw da a rhoddodd ychydig o gefndir i'r math o fusnes yr oedd yn ei weithredu a oedd yn darparu ar gyfer marchnad arbenigol. Cyfeiriwyd at rinweddau'r cerbyd arbenigol arfaethedig ar gyfer trwyddedu yn ogystal ag amserlenni cynnal a chadw a thrin a gefnogwyd gan garej leol. Roedd y cais ar gyfer cerbyd arbenigol gyda defnydd cyfyngedig ar gyfer digwyddiadau arbennig, a oedd yn cael ei gynnal i safon uchel ac yn bodloni'r holl ofynion cyfreithiol a diogelwch.

Wrth ymateb i gwestiynau, eglurodd yr Ymgeisydd mae ei fwriad oedd i uwchraddio a chael cerbyd newydd yn lle ei gerbyd trwyddedig presennol yn hytrach nac ychwanegu at y fflyd. Yn nhermau'r cyfundrefnau cynnal a chadw blaenorol, roedd gan yr Ymgeisydd fanylion hanes blaenorol o drin y cerbyd ac MOT ac roedd y cerbyd wedi ei archwilio ac roedd yn fodlon â'r archwiliad; hefyd rhoddodd sicrwydd ynghlŷn â chyfundrefnau cynnal a chadw parhaus yn y dyfodol. Yn olaf cadarnhaodd ei fod yn barod i gydymffurfio gyda'r amodau trwyddedu ychwanegol ar gyfer y cerbyd dan sylw fel y nodir yn yr adroddiad.

Gohiriwyd y Pwyllgor er mwyn ystyried y cais a -

***PHENDERFYNWYD*** cymeradwyo'r cais am Drwydded Cerbyd Hurio Preifat yn amodol ar yr amodau ychwanegol fel y nodwyd yn Atodiad 3 yr adroddiad.

Dyma resymau'r Pwyllgor Trwyddedu dros y penderfyniad –

Roedd yr Aelodau wedi ystyried y cais yn ofalus, adroddiad y swyddog a'r achos a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd yn ysgrifenedig cyn y cyfarfod ac yn y cyfarfod ei hun.

Wrth ddod i benderfyniad, nododd y Pwyllgor natur a'r math o fusnes a weithredwyd, a bod y cerbyd dan sylw â milltiroedd isel ac mae ychydig o deithiau arbenigol fyddai'n cael eu gwneud a bod yr Ymgeisydd yn weithredwr gydag enw da ac wedi hen sefydlu mewn gwasanaethau arbenigol o'r fath. Ar y sail honno, ac ar ôl ystyried yn benodol yr uchod, a'r gwasanaeth cynnal a chadw llym ddwywaith y flwyddyn gan y Gwasanaethau Fflyd, cytunodd yr Aelodau bod achos wedi'i gyflwyno i wro o'u polisi cyfyngiad oedran yn yr achos hwn, ac i ganiatáu'r cais fel a gyflwynwyd, yn amodol ar yr amodau ychwanegol sydd yn berthnasol i'r math o gerbyd arbenigol, fel y nodir yn Atodiad 3 yr adroddiad.

Cafodd penderfyniad a rhesymau'r Pwyllgor felly eu cyfleu i'r Ymgeisydd.

[Wrth fynd heibio nododd y Pwyllgor ei bod yn debygol y byddai polisi ar wahân mewn perthynas â'r mathau o gerbydau arbenigol yn cael ei lunio yn y dyfodol, un ai fel rhan o ddiwygiad Llywodraeth Cymru o drwyddedu tacsis neu drwy fframwaith polisi y Cyngor ei hun.]

Daeth y cyfarfod i ben am 11.20am.



<b>ADRODDIAD I'R:</b>	Pwyllgor Trwyddedu
<b>DYDDIAD:</b>	6 Rhagfyr 2023
<b>SWYDDOG ARWEINIOL:</b>	Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad
<b>SWYDDOG CYSWLLT:</b>	Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd <a href="mailto:licensing@denbighshire.gov.uk">licensing@denbighshire.gov.uk</a> 01824 706066
<b>TESTUN:</b>	Newidiadau Arfaethedig i Dabl Ffioedd Cerbydau Hacni

## 1.0 PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1 Cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am adolygu'r ffioedd tariff presennol ar gyfer cerbydau hacni (taxis).

## 2.0 CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2.1 Derbyniodd y Gwasanaeth Trwyddedu gais ar 13 Mehefin 2023 gan berchennog Cerbyd Hacni i adolygu'r Tabl Ffioedd Cerbydau Hacni cyfredol. Yn unol ag Adran 65 y Ddeddf, mae'n ofynnol i'r Cyngor ymgymryd â phroses benodol wrth adolygu'r Tabl Ffioedd Cerbydau Hacni.
- 2.2 Yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Trwyddedu ym mis Medi 2023, bu i'r Aelodau ystyried y cais ac awdurdodi Swyddogion i gynnal ymgynghoriad.
- 2.3 Rhaid cynnal proses ymgynghori ffurfiol fel rhan o'r broses benodol o dan y Ddeddf, ac fe gynhaliwyd y broses hon rhwng 18 Medi a 15 Hydref 2023.

## 3.0 PŴER I WNEUD Y PENDERFYNIAD

- 3.1 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976

## 4.0 GWYBODAETH GEFNDIR

- 4.1 Mae Adran 65 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 ("y Ddeddf") yn caniatáu i'r Cyngor osod cyfraddau neu ffioedd yn y Sir mewn cysylltiad â llogi cerbyd hacni.
- 4.2 Yn ystod y cyfarfod diwethaf ym mis Medi, ystyriwyd cais gan berchennog Cerbyd Hacni i gynyddu'r Tabl Ffioedd o 10%, ac wedi i'r Swyddogion gyflwyno argymhelliad i ystyried cynnydd o 5% yn seiliedig ar y Mynegai Prisiau Manwerthu ar gyfer Moduro, penderfynwyd:

- a) *bod y swyddogion yn cael cyfarwyddyd i ymgynghori ar weithredu cynnydd i'r tariff o 5% (wedi'i dalgrynnu i'r ganran lawn agosaf) yn unol â'r Mynegai Prisiau Manwerthu ar gyfer Moduro;*
- b) *awdurdodi swyddogion i fwrw ymlaen â hysbysiad statudol sydd â dyddiad gweithredu o leiaf 28 diwrnod ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad, a*
- c) *rhoi cyfarwyddyd i swyddogion i baratoi adroddiad ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor Trwyddedu os ceir unrhyw wrthwynebiadau i'r hysbysiad statudol.*

4.3 Cynhaliwyd y broses ymgynghori statudol rhwng mis Medi a mis Hydref 2023 fel a ganlyn:

1. Ymgynghoriad cyhoeddus drwy borth Sgwrs y Sir Sir Ddinbych
2. E-bost i bob perchennog Cerbyd Hacni a gyrwyr trwyddedig
3. E-bost i'r holl Gynghorau Sir, Tref a Chymuned
4. E-bost i Wasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych i'w gylchredeg ymhellach o amgylch sefydliadau perthnasol
5. Hysbysiad Cyhoeddus Statudol mewn papur newydd lleol
6. Hysbysiad Cyhoeddus yn Llyfrgelloedd a Swyddfeydd y Cyngor

4.4 Os na cheir unrhyw wrthwynebiadau o fewn y cyfnod ymgynghori statudol, bydd y ffioedd yn dod i rym ar y dyddiad a nodwyd, sef 1 Tachwedd 2023 yn yr achos hwn. Os ceir gwrthwynebiadau, rhaid i'r Cyngor bennu dyddiad, ddim hwyrach na dau fis ar ôl y dyddiad gweithredu arfaethedig, i'r ffioedd ddod i rym, gyda newidiadau neu hebddynt h.y. erbyn 1 Ionawr 2024.

4.5 Ni chafwyd unrhyw ymatebion ysgrifenedig uniongyrchol ac fe ymatebodd 64 unigolyn i'r ymgynghoriad drwy'r porth Sgwrs y Sir, fodd bynnag, ni wnaeth 4 ohonynt nodi p'un a oeddent o blaid neu yn erbyn y cynnig, ac felly nid ydynt wedi cael eu cynnwys yn y cyfanswm. Nodwyd bod 11 o'r ymatebwyr wedi dewis bod yn ddienw ond maent wedi cael eu cynnwys yn y ffigyrau. Fe welwch fanylion pellach yn Atodiad A ond gelir crynhoi'r hyn a ffefrir fel a ganlyn:

<b>Nifer o blaid cynnydd o 5%</b>	<b>Nifer yn erbyn cynnydd o 5%</b>	<b>Nifer o blaid cynnydd dros 5%</b>
14	37	9

4.6 Dywedodd 19 o'r ymatebwyr eu bod yn weithredwyr / gyrwyr trwyddedig. Mae oddeutu 280 o yrwyr trwyddedig a pherchnogion cerbydau hacni.

4.7 Cydnabyddir bod dau ymatebwr i'r ymgynghoriad yn berchnogion cwmnïau tacsï mawr, ac maent wedi nodi eu bod yn ymateb ar ran eu

- gyrwr / gweithwyr, gydag un o blaid cynnydd o dros 5% ac un yn erbyn unrhyw gynnydd.
- 4.8 Atgoffir yr Aelodau o'r ymgynghoriad cychwynnol gyda deiliaid trwydded a arweiniodd at 56 o ymatebion gyda 47 o'r rheiny o blaid cynyddu'r pris o 10%.
- 4.9 Mae'n bwysig nodi bod y Tabl Ffioedd yn darparu'r ffi uchaf y gellir ei chodi am siwrnai. Gall y perchennog gytuno ar bris is gyda'r teithiwr.
- 4.10 Dylid nodi hefyd bod y tabl ffioedd yn ymwneud â ffioedd o fewn Sir Ddinbych yn unig. Os yw'r siwrnai yn dechrau neu'n gorffen y tu allan i'r Sir, gall y gyrrwr a'r teithiwr drafod a chytuno ar ffi. Gall y ffi hon fod yn fwy neu'n llai na thabl ffioedd y Cyngor. Os na chaiff ffi ei thrafod a'i chytuno cyn dechrau'r siwrnai, rhaid defnyddio'r mesurydd a bydd y tabl ffioedd yn berthnasol.
- 4.11 Mae Swyddogion wedi paratoi tabl syml ar gyfer bob ffi yn seiliedig ar filltiroedd llawn, h.y. pellter yn unig, sydd i'w weld yn Atodiad B.
- 4.12 Atgoffir yr Aelodau hefyd bod yr adolygiad hwn o'r ffioedd yn ychwanegol at yr adolygiad o'r ffioedd yn cyd-fynd ag adolygiad o'r gyfrifiannell ffioedd. Bydd yr Aelodau'n cofio yn ystod eu cyfarfod ar 7 Rhagfyr 2022, y gwnaethant ofyn i Swyddogion gynnal ymchwil pellach gyda chymorth gan drwyddedai lleol ar ddefnydd cyfrifiannell ffioedd. Er mwyn defnyddio cyfrifiannell ffioedd, mae mewnbwn gan yrwyr a pherchnogion yn hanfodol, ac er ei fod ychydig yn hwyrach na'r disgwyl, oherwydd y gwaith ychwanegol a oedd ynghlwm wrth yr adolygiad o'r ffioedd presennol, mae cyfarfod cychwynnol gyda deiliaid trwyddedau a fynegodd ddiddordeb mewn cyfrannu a darparu data ar gyfer y gyfrifiannell ffioedd, wedi cael ei drefnu ar gyfer diwedd mis Tachwedd 2023.

## **5. YSTYRIAETHAU**

- 5.1 Mae angen i'r Cyngor gefnogi masnach cerbydau hacni, cyn belled ag y bo'n rhesymol, ac o ystyried y costau byw cynyddol, yn enwedig costau tanwydd (petrol, disel a thrydan), nid yw'n afresymol i'r Cyngor ganiatáu cynyddu'r ffioedd. Mae peidio â gwneud hyn yn lleihau gallu perchnogion cerbydau hacni i redeg eu busnes yn effeithiol mewn marchnad gystadleuol, a allai arwain at ostyngiad yn nifer cyffredinol y cerbydau hacni.
- 5.2 Dylid rhoi ystyriaeth gyfartal i'r effaith y gallai unrhyw gynnydd mewn ffioedd Cerbydau Hacni ei gael ar y cyhoedd sy'n teithio yn yr un modd â'r Perchnogion Cerbydau Hacni eu hunain. I wrthbwysu newidiadau i'r farchnad ac i Berchnogion Cerbydau Hacni allu cadw eu cwsmeriaid

presennol, mae ganddynt y gallu i godi hyd at yr uchafswm yn y Tabl Ffioedd Cerbydau Hacni. Mae hyn yn caniatáu iddynt drafod pris rhesymol gyda'u cwsmeriaid rheolaidd a chadw eu busnes, wrth ddal i alluogi iddynt wneud rhywfaint o elw.

- 5.3 Mae'n bwysig nodi, er nad oes unrhyw gostau uniongyrchol neu oblygiadau ariannol yn ymwneud ag unrhyw gynnydd yn Nhabl Ffioedd y Cyngor, fe allai cynnydd gael effaith anuniongyrchol ar gyllideb Cludiant Ysgol y Cyngor.
- 5.4 Dylid rhoi ystyriaeth i'r costau yn gysylltiedig â chalibro mesuryddion ar y diwydiant os yw Aelodau o blaid cymeradwyo cynnydd mewn ffioedd - byddai'r gost am fesurydd ym mhob cerbyd oddeutu £25.
- 5.5 Dylai Aelodau nodi y bydd unrhyw ddiwygiadau i'r tariff presennol yn gofyn am Benderfyniad Dirprwyedig Aelod Arweiniol i sicrhau bod y Cyngor yn bodloni ei rwymedigaethau cyfansoddiadol.
- 5.6 I grynhoi, gofynnir i'r Aelodau ystyried un o'r dewisiadau canlynol:
  - Cadw'r tabl ffioedd presennol;
  - O ystyried y rhaniad rhwng yr ymatebion i'r ymgynghoriad, cadw'r tabl ffioedd presennol wrth aros am ganlyniad yr adolygiad o'r gyfrifiannell ffioedd a chyfeirio'n ôl mewn cyfarfod Pwyllgor Trwyddedu yn y dyfodol er mwyn ei ystyried.
  - Cymeradwyo'r cynnig i gynyddu'r ffi o 5% fel yr ymgynghorwyd.
  - Cymeradwyo cynnydd gwahanol

## **6. ARGYMHELLION**

- 6.1 Bod yr Aelodau yn ystyried cynnwys yr adroddiad hwn ac yn penderfynu dewis un o'r dewisiadau a amlinellir ym mhwynt 5.6 uchod.
- 6.2 Os bydd Aelodau'n penderfynu cynyddu'r tabl ffioedd arfaethedig, awdurdodi Swyddogion i baratoi adroddiad i'r Aelod Arweiniol er mwyn ei gymeradwyo gyda dyddiad gweithredu diwygiedig dim hwyrach na 1 Ionawr 2024.

## Summary of Responses

Appendix A

IN SUPPORT 5% PROPOSAL	TRADE	PUBLIC
1	Now the new 20mph rule is in force we will be doing less jobs as it will take more time to travel to each job..also using more fuel as car is in a higher gear for longer spells	
2		Taxi drivers need to make a living.. otherwise we will lose them.. get a grip you councillor's you all don't have a clue...
3		Give the drivers a pay rise
4		I support it but I think wAiting charges are too low. Waiting increases inefficiency and reduced taxi availability. They ought to be charged to deter waiting. Am concerned that the new 20mph limit will impact taxi services in a negative way in tens of reducing their reasonable income because the chargeable journey will take longer. Luggage charges should be imposed after allowing one item per passenger not simply for having luggage
5	Reason I am voting yes is due to the fuel costs, I do not like the idea of a price increase as our customers are already struggling with finances.	
6	A pay rise should be considered every year, petrol and diesel goes up all the time so why shouldnt a taxi drivers wage reflect that. Also the opinions of people who dont actually hold either a private hire or hackney badge should not be considered when they dont even perform the actual duty	
Number in support but no comments made	3	5
<b>TOTAL IN SUPPORT</b>	<b>6</b>	<b>8</b>

Tudalen 21

Summary of Responses

Appendix A

Tudalen 22

AGAINST 5% PROPOSAL	TRADE	PUBLIC
1	<p>Lots of fares end up with a 5p at the end. These fares I round down to the nearest 10p. If you start using pennies as well then it just becomes a nuisance. As I've stated before, people are using taxis less since the last increase so my opinion is just leave it alone. It will only cause more damage to the trade. Some taxi firms are not providing the service and are losing money as a consequence so why should the public be expected to pay for this</p>	
2	<p>After watching the webcast of the Licensing committee meeting, I would like to make the following comments. I would also like them bring up at the next Committee meeting. I think as a Company we were poorly represented by [REDACTED] who I thought gave an extremely poor performance in front of the committee, he couldn't answer questions confidently and with any knowledge as he has none. [REDACTED] actually pointed out that Companies might respond but are counted as drivers as we hold a license. When I respond in future I expect I can actually tell the Licensing committee that I have responded and as my company I have more than 50 drivers. This is more than the respondents to your question by email. I also run the largest owned fleet in the County so my costs are higher than anyone. Realistically the increase will reduce the amount of customers we have. It will increase the cost of school transport and lots of contracts carried out for Denbighshire county Council as school Contracts are priced against taxi fares, other departments are done on metered prices this puts pressure on the public purse. I haven't asked for an increase in the</p>	

## Summary of Responses

## Appendix A

Tudalen 23

	rate as I run the business with all this in mind remembering I have the burden of Wages to pay, Pension contributions on top of all the usual normal running costs.	
3	If the fares go up anymore will will just lose customers, I've lost customer from the last increase. We have the option to work an extra hour in the day to make up our money. As the general public don't. I'm against the increase and i will not be putting my fare up.	
4		It's not helpful for the cost of living crisis.
5	The price at the moment is over the top, if you would like to leave your office for a house I'd be gladly take you on a few journeys in my taxi free of charge and then you be the judge of it. Believe me you'll have a shock.	
6		This is adding to inflation and people without cars usually can't afford a car. You are penalising those who can least afford it.
7		We are being screwed enough with prices going up and this will make it harder for the more vulnerable people to get out and about. If you want us to use more public transport then improve public transport!
8		As someone who uses a taxi on a daily basis, I am not in favour of yet another increase. The fares increased a while ago and it was not at the request of the companies or taxi drivers but the local authority. How many Denbighshire Council Members use a taxi on a regular basis?
9		Times are really hard for everyone at the moment, these increases are likely to make people think twice about ordering a taxi which could impact taxi drivers' living.
10		Taxis are already too expensive. How much does it cost to travel an hour in a taxi? Maybe lower the fees you charge taxi drivers to work

## Summary of Responses

Appendix A

